## ADRODDIAD STRATEGOL

Mae ein pwrpas fel asiantaeth datblygu a hyrwyddo chwaraeon Cymru yn ddeublyg: ysbrydoli mwy o bobl i fod, a pharhau i fod, yn egnïol am oes; a rhoi hwb i berfformiad ein hathletwyr, ein timau a'n hyfforddwyr elitaidd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein dyhead i 'Greu Cenedl o Bencampwyr' a 'Phob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes'.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni'r amcanion hyn ac mae ganddo rôl i'w chwarae mewn dod â phartneriaid a phobl at ei gilydd; awdurdodau lleol, cyrff rheoli chwaraeon, cymunedau, hyfforddwyr, oedolion, pobl ifanc, plant a'r genedl gyfan i gefnogi chwaraeon a chymryd rhan a rhagori ynddynt. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio tuag at sicrhau cydraddoldeb yn ein holl swyddogaethau, gan groesawu ysbryd deddfwriaeth cydraddoldeb a dileu unrhyw ffurf ar wahaniaethu annheg.

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Fel corff sy'n llunio Ystadegau Swyddogol, rydym yn darparu data canlyniad hanfodol sy'n gadarn ac yn fanwl gywir, fel sail i bolisïau ac arferion chwaraeon ac i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol. Ar hyn o bryd rydym yn casglu'r data hyn gan ddefnyddio dau arolwg ar raddfa fawr ar y boblogaeth, bob dwy flynedd[i].

Mae ein data diweddaraf yn dangos tueddiadau cadarnhaol o ran cyfranogiad pobl mewn chwaraeon. Mae hyn yn dangos bod ein dull strategol o weithredu'n arwain at ganlyniadau ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl Cymru.

Mae ein perfformiad yn erbyn ein mesurau allweddol wedi'i ddatgan yn y tablau isod:

| | **Pobl Ifanc** (7-16 oed) | |
|---|---|---|
| | **Wedi Gwirioni ar Chwaraeon**[ii] | **Aelodaeth o Glybiau Chwaraeon** |
| **2011** | 27% | 46% |
| **2013** | 40% | 53% |

| | **Oedolion** (15+ oed) | | |
|---|---|---|---|
| | **Wedi Gwirioni ar Chwaraeon** | **Aelodaeth o Glybiau Chwaraeon** | **Gwirfoddoli mewn Chwaraeon** |
| **2008** | 29% | 16% | 5% |
| **2012** | 39% | 27% | 10% |

[i] Nid ydym yn gallu darparu data canlyniad ar gyfer 2010. Ni chadwodd y casglwyr data at y contract ac, o'r herwydd, nid oedd modd defnyddio'r data

[ii] Diffinnir Wedi Gwirioni ar Chwaraeon fel cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos

Bydd data canlyniad newydd ar lefel poblogaeth ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion yn 2015/16.

Mae'r duedd gadarnhaol rydym yn ei gweld ar lefel genedlaethol yn cael ei hadlewyrchu yn y data allbwn rydym yn eu casglu gan ein sefydliadau partner, sy'n dangos bod yr aelodaeth gyffredinol o glybiau yn cynyddu a bod rhaglenni chwaraeon mewn ysgolion yn fwy poblogaidd nag erioed o'r blaen, gyda mwy o bresenoldeb.

| | Cofrestriadau'r Ddraig | Presenoldeb 5x60 | Amledd 5x60 / 20 | Pob sesiwn nofio am bob 1000 o'r boblogaeth | Cyfraddau dysgu nofio yn 11 oed | Nifer yr Hyfforddwyr a'r swyddogion gweithredol | Aelodaeth Dynion o Glybiau | Aelodaeth Merched o Glybiau | Aelodaeth Bechgyn o Glybiau | Aelodaeth Genethod o Glybiau | Nifer y Clybiau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Targed 2013-14 | 250,066 | 1,202,128 | 25,654 | 1,690 | 78% | 50,281 | 295,028 | 52,665 | 158,098 | 51,909 | 5,840 |
| Gwirioneddol 2013-14 | 229,687 | 1,351,530 | 22,234 | 1,456 | 74% | 48,169 | 258,092 | 48,548 | 152,612 | 57,240 | 5,431 |
| Targed 2014-15 | 241,201 | 1,312,960 | 27,624 | 1,609 | 78% | 57,701 | 271,576 | 56,966 | 162,399 | 68,017 | 5,366 |
| Gwirioneddol 2014-15 | 274,969 | 1,541,304 | 24,641 | 1,445 | 73% | 51,765 | 282,413 | 72,182 | 127,601 | 45,697 | 5,448 |